

# Tywydd eithafol

## Map meddwl tywydd eithafol

**1** Os yw'r bobl ifanc rydych yn gweithio gyda nhw yn newydd i'r cysyniad o dywydd eithafol, efallai yr hoffech ddechrau'r wers gyda chyflwyniad byr. Gallech ddangos y **ffilm digwyddiad tywydd eithafol** a gofyn i'r bobl ifanc a allan nhw feddwl am enghreifftiau o dywydd eithafol maen nhw wedi clywed amdanynt a meddwl am beth sy'n gwneud y digwyddiadau hynny yn eithafol. Os ydych chi angen gwybodaeth ychwanegol, fideos neu ddelweddau, gellir cael adnoddau ychwanegol **yma.**

**2** Eglurwch i'r grŵp eu bod yn mynd i greu map meddwl i'w helpu i archwilio digwyddiadau tywydd eithafol. Eglurwch mai diagram a ddefnyddir i drefnu gwybodaeth yn weledol yw map meddwl. Gallwch ddangos yr enghraifft a ddarparwyd fel y gall pobl ifanc weld sut beth yw.

**3** Rhannwch y grŵp yn grwpiau bach a rhowch un o'r cardiau proffil tywydd eithafol i bob  grŵp, (ar dudalenau 3–4) a darn o bapur. Gofynnwch iddyn nhw ludo'r cerdyn yng nghanol y papur gyda clud neu blutac.

- 20 munud
- Gwaith grŵp
- Sleid map meddwl
- Cardiau proffil tywydd eithafol
- Papur A4 neu A3
- Cyfrifiaduron, llechi neu ddyfeisiau symudol tebyg (dewisol)
- Glue or blu tack

4 Ar gyfer eu mapiau meddwl, byddant yn cofnodi'r holl eiriau a syniadau maent yn eu cysylltu â'r tywydd eithafol a roddwyd iddynt. I helpu'r grŵp, gallech awgrymu'r haenau o ganghennau isod a defnyddio cwestiynau ysgogi gan gynnwys:

- Emosiynau: Sut fyddai pobl sy'n profi'r tywydd eithafol hwn yn teimlo? Pa fath o emosiynau?
- Effeithiau: Pa fathau o effeithiau a gysylltir gyda'r tywydd eithafol hwn? Pa wahaniaethau allech chi eu gweld yn yr ardal leol cyn ac ar ôl y digwyddiad tywydd eithafol? Sut allai effeithio ar bobl, planhigion ac anifeiliaid?
- Lleoliad: Ble mae'r math hwn o dywydd eithafol yn tueddu digwydd?
- Cadw'n ddiogel: Sut allai pobl baratoi ar gyfer digwyddiad tywydd eithafol? Pwy allai helpu?

Dewisol: Os oes gennych chi lechi, cyfrifiaduron neu ddyfeisiau eraill ar gael, gallwch annog pawb i wneud rhywfaint o ymchwil mewn grŵp yn defnyddio'r dolenni ar eu cerdyn; gallai hyn eu helpu i gwblhau eu map meddwl. Gallant ddefnyddio offeryn ar-lein hefyd i greu eu map meddwl: **https://app.mindmup.com/map/new/**

Noder os ydych yn dewis gwneud hynny, efallai yr hoffech neilltuo 15 munud arall i gwblhau'r gweithgaredd hwn.

5 Pan yw'r grwpiau wedi cwblhau eu mapiau meddwl, gofynnwch i ychydig o wirfoddolwyr rannu rhai o'r syniadau a'r geiriau maent wedi eu cynnwys.



© Hawlfraint y Goron 2022,
Y Swyddfa Dywydd

# Cardiau proffil tywydd eithafol

## Corwynt

Stormydd mawr iawn sy'n troi'n gyflym yw corwyntoedd ac maent yn cynnwys gwyntoedd a stormydd o daranau. Bob blwyddyn, mae sawl un yn cyrraedd y tir a gallant achosi difrod sylweddol i eiddo a marwolaethau. Cânt hefyd eu galw'n deiffwnau neu gylchoedd gwynt trofannol.

**Dysgwch ragor yma:**
www.metoffice.gov.uk/research/weather/tropical-cyclones/hurricane

www.oceanservice.noaa.gov/facts/hurricane.html

https://www.cdc.gov/nceh/features/hurricanepreparedness/

## Tornado

Weithiau fe'i gelwir yn drowynt. Mae tornado yn golofn o aer sy'n troi'n gyflym ac sy'n ymestyn o waelod cwmwl storm ac arwyneb y ddaear.

**Dygwch ragor yma:**
http://www.metoffice.gov.uk/weather/learn-about/weather/types-of-weather/tornadoes

www.emsaonline.com/mediacenter/articles/00000184.html

www.stormaware.mo.gov/preparing-for-a-tornado/

## Tanau gwyllt

Weithiau fe'i gelwir y rhain yn danau coedwig neu danau fforestydd. Dyma dân mewn ardal naturiol. Gall cyfuniad o dywydd poeth a sych eu hachosi, ac mae'r tanau'n dechrau naill ai o ganlyniad i fellt neu weithgaredd dynol.

**Rhagor o wybodaeth yma:**
www.kfwf.org.uk

www.nationalgeographic.com/environment/natural-disasters/wildfires/

www.readyforwildfire.org/What-To-Do-If-Trapped/

# Cardiau proffil tywydd eithafol

## Stormydd eira

Mae storm eira'n cyfeirio at wynt oer a chryf sy'n llawn eira sy'n lleihau'r hyn y gellir ei weld yn sylweddol (golyga hyn fod storm eira'n ei gwneud hi'n anodd gweldd pethau sydd ymhellach i ffwrdd).

**Dysgwch ragor yma:**
www.metoffice.gov.uk/weather/learn-about/weather/types-of-weather/snow/blizzard

www.which.co.uk/news/2019/01/how-to-stay-safe-in-snow-and-ice/

## Storm tywod

Weithiau fe'i gelwir yn storm llwch. Mae storm tywod yn digwydd pan fydd gwyntoedd cryf iawn yn chwythu tywo a/neu lwch o ardal sy'n sych. Maen nhw'n gyffredin yn yr anialwch

**Dysgwch ragor yma:**
www.sciencing.com/are-there-warning-signs-before-a-dust-storm-occurs-13419067.html

www.arizonahighways.com/blog/do-you-know-what-do-during-dust-storm

www.health.nsw.gov.au/environment/factsheets/Pages/dust-storms.aspx

## Ton wres

Ton wres yw cyfnod estynedig o dywydd poeth, a gallai fod wedi'i gyfuno â lleithder.

**Dysgwch ragor yma:**
www.metoffice.gov.uk/weather/learn-about/weather/types-of-weather/temperature/heatwave

www.health.nsw.gov.au/environment/beattheheat/Pages/prepare-for-heat.aspx